# Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth

rhwng

## Gweinidogion Cymru, Prif Arolygydd Arolygiaeth Gofal Cymru

a

## Phrif Weithredwr Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

Mawrth 2026

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

© Hawlfraint y Goron 2026 WG54278 ISBN digidol 978-1-83745-249-1

**MEMORANDWM CYD-DDEALLTWRIAETH RHWNG GWEINIDOGION CYMRU A PHRIF AROLYGYDD AROLYGIAETH GOFAL CYMRU A PHRIF WEITHREDWR AROLYGIAETH GOFAL IECHYD CYMRU**

**Cyflwyniad**

1. Mae'r memorandwm cyd-ddealltwriaeth hwn yn nodi sail cydberthynas Gweinidogion Cymru â Phrif Arolygydd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) a Phrif Weithredwr Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ("y Prif Swyddogion") yng Ngrŵp y Prif Weinidog.

**Swyddogaethau**

2. Ceir crynodeb o'r prif swyddogaethau i'w hymarfer gan y Prif Swyddogion, fel y'u hawdurdodwyd o dan adran 52 (9) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ac yn deillio o ddeddfwriaeth bresennol, yn Atodiad A. Ar wahân i'r amgylchiadau mwyaf eithriadol, ni fydd y swyddogaethau hyn yn cael eu tynnu'n ôl, ac nid heb eu cyflwyno'n ffurfiol i Weinidogion Cymru a'r Ysgrifennydd Parhaol.

3. Mae AGC yn gyfrifol am arolygu a rheoleiddio gofal plant, gofal cymdeithasol a gofal nad yw'n ofal iechyd i oedolion a phlant, yn ogystal â gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae AGIC yn gyfrifol am arolygu gwasanaethau GIG Cymru (gan gynnwys gofal a gaiff ei ariannu gan GIG Cymru) ac am arolygu a rheoleiddio gwasanaethau gofal iechyd annibynnol yng Nghymru. Mae'r ddwy Arolygiaeth yn cyflawni eu swyddogaethau ar ran Gweinidogion Cymru.

**Gweinidogion Cymru**

4. Mae Gweinidogion Cymru yn cydnabod pwysigrwydd annibyniaeth a barn broffesiynol AGC ac AGIC. Felly, mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn gyfrifol am oruchwylio prosesau archwilio, arolygu a rheoleiddio fel y maent yn berthnasol i wasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys trefniadau sefydliadol AGC ac AGIC.

5. Mae Gweinidogion Cymru yn derbyn y dylai Prif Swyddogion perthnasol yr Arolygiaethau feddu ar y gallu i fonitro, gwerthuso, adolygu, asesu, ac adrodd ar ansawdd a darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus, masnachol a gwirfoddol sy'n berthnasol i'w swyddogaethau, heb bwysau rhagfarnus neu gyfyngiadau amhriodol. Mae Gweinidogion Cymru hefyd yn derbyn, er budd y cyhoedd, y dylid cyhoeddi datganiadau diduedd a gwrthrychol sy'n seiliedig ar wybodaeth o'r ffeithiau am y gwasanaethau a gaiff eu harolygu a'u rheoleiddio gan AGC ac AGIC, gan fod hynny'n rhan annatod o'r broses o ddatblygu prosesau dylunio gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y dinesydd a'r gymuned; mesur safonau mewn ffordd effeithiol a chyson; gwella gwasanaethau; datblygu ymarferwyr; a gwybodaeth a all weithredu fel sail i brosesau da ar gyfer llunio polisïau.

6. Mae Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Blynyddoedd Cynnar (HSCEY) yn dyrannu adnoddau'n ffurfiol i CIW ac HIW ar sail flynyddol. Fodd bynnag, nid yw'r ddwy arolygiaeth yn is-elfennau o’r grŵp sy'n ymwneud fwyaf â'r gwasanaethau y maent yn adrodd arnynt, nac yn rhan annatod o'r grŵp hwnnw. Mae CIW a HIW wedi'u gwahanu'n fwriadol o'r Grŵp Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Blynyddoedd Cynnar gan eu bod yn adrodd i'r Cyfarwyddwr Cyffredinol dros Strategaeth. Mae egwyddorion y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn berthnasol yn yr union un ffordd mewn perthynas â'r gwasanaethau hynny, gan gydnabod annibyniaeth weithredol y swyddogaethau rheoleiddio ac arolygu.

**Cyfrifoldebau gweithredol**

7. Mae Cyfarwyddwr Cyffredinol Grŵp Strategaeth Llywodraeth Cymru (y “Cyfarwyddwr Cyffredinol”) yn gyfrifol am gefnogi Prif Arolygydd AGC a Phrif Weithredwr AGIC mewn perthynas â'r canlynol:

- sicrhau y dylai gofynion o ran safonau uchel o farn broffesiynol, a'r annibyniaeth sydd ei hangen i lunio barn o'r fath ac i'w mynegi'n gyhoeddus, (gan gynnwys ym Mhwyllgorau'r Senedd), gael eu hadlewyrchu mewn disgrifiadau swydd ac mewn ymarfer gweinyddol ehangach;

- eu galluogi i lywio eu rhaglenni gwaith eu hunain yn seiliedig ar eu fframwaith statudol a'u fframwaith polisi ac ar waith archwilwyr, rheoleiddwyr ac arolygiaethau nad yw'r protocol hwn yn ymwneud â nhw; ymateb yn ôl yr angen i bryderon annisgwyl neu bryderon sy'n dod i'r amlwg mewn perthynas â methiannau gan wasanaethau yn ystod y flwyddyn; adrodd yn unol ag amodau eu rheolaeth olygyddol eu hunain; ac yn yr un modd, cyhoeddi datganiadau ategol i'r cyfryngau;

- gwarantu hawliau mynediad uniongyrchol ac annibynnol i Weinidogion Cymru a darparu fframwaith o gymorth datblygiadol ehangach y gallant ei ddefnyddio i weithredu yn unol â'u cyfrifoldebau o ddydd i ddydd, gan flaenoriaethu gweithgarwch yn ôl yr angen.

8. Mae'r Cyfarwyddwr Cyffredinol hefyd yn gyfrifol am reoli perfformiad personol y Prif Arolygydd a'r Prif Weithredwr, yn y drefn honno, ac, o safbwynt strategol, y swyddogaethau y maent yn eu harwain. Er ei bod yn ofynnol i'r Prif Swyddogion weithredu'n unol â cheisiadau a chyfarwyddiadau rhesymol gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol a/neu Weinidogion Cymru, nid yw'r cydberthnasau yn seiliedig ar orchmynion a rheolaeth uniongyrchol a pharhaus.

9. Yn hytrach, mae gan y Prif Swyddogion gyfrifoldebau dirprwyedig ac maent yn atebol i'r Cyfarwyddwr Cyffredinol a Gweinidogion Cymru am eu cyflawni yn unol ag amodau proses lywodraethu sy'n ddigon tryloyw. Yn eu tro, mae'n ofynnol i'r Prif Swyddogion gyfrannu at ddatblygiad a gweithrediad corfforaethol y Grŵp cyfan; i ymrwymo, cyn belled ag y mae eu swyddogaethau'n berthnasol, i gyflawni amcanion Llywodraeth Cymru; i gyfrannu at y gwaith o ateb gofynion a chydymffurfio ag egwyddorion prif ffrwd; ac i rannu adnoddau at y diben hwnnw, lle y bo'n bosibl gwneud hynny

heb danseilio eu gallu i gyflawni'r blaenoriaethau a'r cyfrifoldebau statudol a bennwyd ar eu cyfer.

10. Mae'r Prif Swyddogion yn benodol gyfrifol am y canlynol:

- gweithredu'n briodol ac yn gyfreithlon wrth gyflawni rolau a chyfrifoldebau statudol – gan gynnwys ystyried camau gorfodi troseddol a/neu sifil priodol lle nad yw darparwyr gwasanaethau yn cyflawni eu rhwymedigaethau;

- unrhyw fethiannau i gyflawni neu arfer rolau a chyfrifoldebau statudol neu am fethu â gweithredu lle y nodwyd bod eu gallu i gyflawni rolau a chyfrifoldebau o'r fath yn peri risg;

- penderfynu ar raglenni gwaith yr arolygiaethau (ar ôl ymgynghori) a chyflawni eu rhaglenni gwaith a'u hamcanion gweithredol gan ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael;

- cydymffurfio â holl systemau ariannol Llywodraeth Cymru a'r gofynion llywodraethu cysylltiedig, gan fod yn gwbl atebol i'r Cyfarwyddwr Cyffredinol fel Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol.

**Gweithredu a Goblygiadau**

11. Wrth reswm, y Prif Swyddogion fydd yn penderfynu sut i gyflawni eu rhwymedigaethau statudol, a sut i ddefnyddio eu timau staff at y diben hwnnw, gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf i Weinidogion Cymru yng nghyd-destun sesiynau briffio, cyfarfodydd ffurfiol a mynediad uniongyrchol drwy gydol y flwyddyn fel y bo'n briodol.

12. O ganlyniad, nid yw Gweinidogion Cymru na'r Cyfarwyddwr Cyffredinol yn gwneud penderfyniadau gweithredol ymarferol nac yn mynegi barn broffesiynol mewn perthynas ag achosion neu leoliadau penodol; ar gyfer unrhyw fater staffio cysylltiedig (ar wahân i'r hyn a nodir ym mharagraff 14 isod); nac ar gyfer unrhyw benderfyniadau manwl ynghylch y ffordd orau o gyflawni blaenoriaethau ac amcanion yn ystod y flwyddyn. Y Prif Swyddogion unigol fydd yn weithredol gyfrifol am yr holl faterion hynny.

13. Mewn perthynas ag ymdrin â chwynion, rheolaethau twyll, rheoli asedau gwybodaeth, rhaid i'r systemau a'r rheolaethau a weithredir gan yr Arolygiaethau gydymffurfio â gofynion Llywodraeth Cymru a'r gwasanaeth sifil: mae'n rhaid nodi hyn yn glir i staff a chleientiaid. Rhaid i'r broses recriwtio gydymffurfio â chod y Gwasanaeth Sifil.

**Adolygu**

14. Ar gais y Prif Swyddogion, bydd y memorandwm hwn yn cael ei adolygu'n rheolaidd ar y cyd â'r Cyfarwyddwr Cyffredinol a chaiff unrhyw argymhellion o ran newidiadau eu cyflwyno i Weinidogion Cymru eu hystyried.

**Adolygwyd: Chwefror 2026**

**Atodiad A**
**Crynodeb o'r ddeddfwriaeth berthnasol**

Bwriedir i'r testun canlynol grynhoi'r prif bwerau deddfwriaethol a gaiff eu harfer gan AGC ac AGIC. Ni fwriedir iddo fod yn hollgynhwysfawr, ond yn hytrach i nodi'n eang y sail ddeddfwriaethol y mae'r ddwy arolygiaeth yn gweithredu oddi tani. Mae cyfeiriadau at ddeddfwriaeth yn cynnwys y ddeddfwriaeth fel y'i diwygiwyd. Gall fod darpariaethau deddfwriaethol ychwanegol y bydd AGC ac AGIC yn dibynnu arnynt o bryd i'w gilydd.

**AGC**

Mae AGC yn cynnal swyddogaethau rheoleiddio ac arolygu o dan **Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016** ar gyfer:

- gwasanaethau cartrefi gofal
- gwasanaethau llety diogel
- gwasanaethau canolfannau preswyl i deuluoedd
- gwasanaethau mabwysiadu
- gwasanaethau maethu
- gwasanaethau lleoli oedolion
- gwasanaethau eirioli
- gwasanaethau cymorth cartref
- ysgolion arbennig preswyl

Mae AGC hefyd yn rheoleiddio ac yn arolygu'r canlynol o dan ran 2 o **Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010:**

- Gwarchodwyr plant
- Gofal Dydd (gan gynnwys Chwarae) i blant o dan ddeuddeg oed

Mae gan AGC hefyd bwerau i arolygu ysgolion annibynnol, gan roi ystyriaeth i les y plant sy'n cael eu lletya yn yr ysgolion hynny (rhan 12 o **Ddeddf Plant 1989**). Gall hefyd ystyried a ddylid caniatáu hepgoriad o ddatgymhwyso rhag parhau neu fod yn rhan o gartrefi plant o dan ran 8 o'r Ddeddf.

Mae AGC yn adolygu gweithrediad adrannau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 yn gosod darpariaethau yn adran 149 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 er mwyn i AGC adolygu'r gwaith o wireddu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol.

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
AGIC yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd Cymru.

> Mae AGIC yn arolygu gwasanaethau'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yn erbyn amrywiaeth o safonau, polisïau, canllawiau a rheoliadau er mwyn nodi meysydd y mae angen eu gwella.

Gellir gweld rhagor o fanylion am yr hyn y mae AGIC yn ei wneud ar ei gwefan.
Mae strategaeth bresennol AGIC yn amlinellu ei nodau a'i hamcanion.

Mae prif swyddogaethau a chyfrifoldebau AGIC yn deillio o'r ddeddfwriaeth ganlynol:

- Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003 (legislation.gov.uk)
- Deddf Safonau Gofal 2000 (legislation.gov.uk)
- Deddf Iechyd Meddwl 1983 (legislation.gov.uk)
- Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 (legislation.gov.uk)
- Rheoliadau Cyffuriau a Reolir (Goruchwylio Rheolaeth a Defnydd) (Cymru) 2008 (legislation.gov.uk)

Ar gyfer gwasanaethau gofal iechyd y GIG, rhaid ystyried y canlynol:

- Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal (2023).
- Dyletswydd Gonestrwydd y GIG (2023)[1].
- Datganiadau Ansawdd (lle y bônt ar gael).
- Lle y defnyddir ymbelydredd ïoneiddio, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017(Legislation.gov.uk).

Ar gyfer gwasanaethau gofal iechyd annibynnol, rhaid ystyried y canlynol:

- Y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru (2011)[2].
- Rheoliadau perthnasol fel Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 (Legislation.gov.uk) a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 (Legislation.gov.uk).
- Lle y defnyddir ymbelydredd ïoneiddio, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017 (Legislation.gov.uk ) .

Ar gyfer gwasanaethau perthnasol, lle y bo'n gymwys, dylid ystyried y canlynol:

- Canllawiau a safonau perthnasol a luniwyd gan reoleiddwyr gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, fel y Cyngor Meddygol Cyffredinol, y Cyngor Deintyddol Cyffredinol, y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth a sefydliadau cydnabyddedig eraill.

[1] Cyflwynwyd y Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal a Dyletswydd Gonestrwydd y GIG o dan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 (Legislation.gov.uk).
[2] the-national-minimum-standards-for-independent-health-care-services-in-wales-2011-no-16.pdf (llyw.cymru).